



**Cofnodion wedi'u cadarnhau o
Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau (ADC) y CBC
23 Chwefror 2026 am 13:30 o'r gloch
trwy Microsoft Teams**

Aelodau:		
Mandy Rayani	(MR)	Is-gadeirydd ac Aelod Lleyg, CBCGC
Shameem Nawaz	(SN)	Aelod Lleyg, CBCGC
Yn Bresennol:		
Carole Bell	(CB)	Cyfarwyddwr Nyrsio ac Ansawdd, CBCGC
Sue OLeary	(SO)	Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed, CBCGC
Iolo Doull	(ID)	Cyfarwyddwr Meddygol, CBCGC (rhan o'r cyfarfod)
Aaron Fowler	(AF)	Ysgrifennydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu, CBCGC
Rhodri Pyart	(RP)	Arweinydd Ansawdd Rhwydwaith Arennau Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (siarad am eitem 4.1)
Ross Whitehead	(RW)	Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Ambiwlans ac 111, CBCGC
Dirprwyon:		
Helen Ashcroft	(HA)	Dirprwy Gyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Arbenigol, CBCGC
Penny Letchford	(PL)	Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol, CBCGC
Yn Arsylwi:		
Vicki Dawson-John	(VDJ)	Partner Busnes Ansawdd a Chanlyniadau, CBCGC
Sian Lane		Pennaeth Ansawdd, CBCGC
Kirsty John	(KJ)	Partner Busnes Ansawdd a Chanlyniadau, CBCGC
Adele Roberts	(AR)	Pennaeth Ansawdd a Gofal Cleifion, CBCGC
Helen Tyler	(HT)	Pennaeth Llywodraethu a Risg, CBCGC
Adrian Clarke	(AC)	Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed, CBCGC
Gwesteion:		
Jonathan James Cubitt	(JJC)	Ymgynghorydd Llosgiadau a Llawfeddyg Plastig Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar gyfer Stori'r Cleifion Eitem/
Ymddiheuriadau:		
Susan Elsmore	(SE)	Cadeirydd QSOC ac Aelod Lleyg, CBCGC
Dr Phillip Kloer	(PK)	Aelod Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda,
Melanie Wilkey	(MW)	Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol, CBCGC
Angela Mutlow	(AM)	Cyfarwyddwr Corfforaethol Gweithrediadau, Llais
Cofnodion:		
Gareth Mitchell	(GM)	Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol, CBCGC
Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda	
QSO25/112	1.1 Croeso a Chyflwyniadau Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gwnaed cyflwyniadau. Roedd y cyfarfod, a gynhaliwyd trwy Microsoft Teams, yn ffurfio cworwm ac ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau i recordio'r cyfarfod at ddibenion gweinyddol. Cyflwynwyd JJC, Llawfeddyg Ymgynghorol Llosgiadau a Llawfeddygaeth Adluniol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, a oedd yn bresennol i gyflwyno stori claf. Cyflwynwyd SO fel Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Anawsterau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed newydd CBCGC.	
QSO25/113	1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb, fel y disgrifir uchod.	



QSO25/ 114	1.3 Datganiadau o Fuddiant Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau a'r rhai oedd yn bresennol o bwysigrwydd cofnodi datganiadau buddiant.
QSO25/ 115	1.4 Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2025 a Materion sy'n Codi Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2025 fel cofnod gwir a chywir.
QSO25/ 116	1.5 Cofnod o'r Camau Gweithredu Cafwyd y Cofnod Camau Gweithredu. Nododd yr aelodau fod yr holl gamau gweithredu wedi'u cadarnhau fel rhai sydd wedi'u cau. Mae eitemau wedi'u hychwanegu at y Blaengynllun Busnes a byddant yn cael eu dwyn yn ôl i'r cyfarfod yn y dyfodol, pan fo'n briodol er mwyn osgoi cadw camau gweithredu yn agored am gyfnod amhenodol. Roedd yr aelodau'n cefnogi'r dull hwn.
QSO25/ 117	2.1 Stori Claf - Llosgiadau Roedd stori'r claf, a gyflwynwyd gan JJC, yn manylu ar glaf 81 oed a oedd wedi cael anaf llosg a oedd yn peryglu ei bywyd. Gyda dull amlddisgyblaethol, goroesodd y claf. Nododd yr aelodau'r canlynol: <ul style="list-style-type: none">• Dioddefodd y claf losgiadau o fflamau ar dros 45% o arwynebedd cyfan y corff wrth goginio gartref. Roedd difrifoldeb yr anaf yn dangos tebygolrwydd uchel o farwolaeth yn seiliedig ar sgôr Bose o 126. Roedd y llosgiadau'n gofyn am sawl ymyrraeth llawfeddygol, a chafwyd sgwrs gyda'r teulu i drafod nad oedd y claf yn debygol o oroesi'r llosgiadau.• Rhoddwyd amserlen gofal fanwl gan gynnwys manylion yr ymyriadau llawfeddygol niferus oedd eu hangen. Cafodd y teulu a'r claf gymorth seicolegol trwy gydol y cyfnod gofal.• Yn raddol, dros amser, yn dilyn nifer o driniaethau llawfeddygol ac ymyrraeth amlddisgyblaethol, gan gynnwys cymorth iechyd galwedigaethol a gan seicolegwyr, fe wellodd y claf fesul dipyn.• Amlygwyd rôl cefnogaeth seicolegol i'r claf a theulu'r claf.• Mynegodd y claf ei diolchgarwch am y driniaeth feddygol a theimlai bod anogaeth gan y tîm, yn ogystal â'r teulu, yn gymhelliant iddi drwy gydol y broses adsefydlu anodd a heriol.• Derbyniwyd adborth gan y claf, a ddywedodd, ar adegau, y gallai fod wedi cael gwybod mwy am y triniaethau a oedd yn cael eu cynnal gan nad oedd hi bob amser yn eu deall yn llawn. Tynnodd y stori sylw at ba mor ddefnyddiol yw dull amlddisgyblaethol a'r angen am wydnwch cleifion. Trafododd yr aelodau: <ul style="list-style-type: none">• Pa mor ddefnyddiol yw straeon cleifion i ddeall gwasanaethau a gomisiynwyd gan CBCGC.• Yr angen am gymorth seicolegol i staff. Cefnogwyd staff y Tîm Amlddisgyblaethol drwy sesiynau dadfrifio/cyfarfodydd tîm Rheoli Risg Trawma (TRiM) a darparwyd cefnogaeth unigol hefyd. Tynnodd JJC sylw at y ffaith bod y tîm llosgiadau yn dîm cefnogol iawn a oedd o gymorth i greu gwydnwch seicolegol.• Mae llwyddiant technegau atal yn y boblogaeth wedi lleihau nifer yr achosion o losgiadau a nifer y cleifion sydd angen triniaeth. Diolchodd y Cadeirydd i JJC am ddod i'r cyfarfod a rhannu stori'r claf a gofynnodd iddo ddiolch i'r claf am ei chaniatâd i rannu ei stori.
QSO25/ 118	3.1 Cofrestr Risg y Cyd-bwyllgor Comisiynu – Risgiau a Neilltuwyd i Is-bwyllgor QSOC Derbyniodd y Pwyllgor y risgiau a neilltuwyd i is-bwyllgor QSOC o Gofrestr Risg Weithredol CBCGC ar 31 Ionawr 2026. Ar ôl craffu ac adolygu QSOC, bydd y Cyd-bwyllgor Comisiynu (JCC) yn derbyn cofrestr risg Ionawr 2026 yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2026. Nododd yr aelodau:



- Bod naw risg comisiynu ar agor gyda sgôr risg o bymtheg ac uwch wedi'i neilltuo i'r QSOC.
- Roedd natur y risgiau a amlinellwyd wedi symud i ddull sy'n canolbwyntio ar y comisiynydd, a ddylai arwain at well rheolaethau a champau gweithredu mwy effeithiol, ond mae hyn yn parhau i fod yn waith sy'n mynd rhagddo. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at reolaeth amcanion strategol y sefydliad a'r Fframwaith Sicrwydd ar y Cyd (JAF) sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.
- Mae un risg wedi'i huwchgyfeirio; mae un risg sy'n dod i'r amlwg wedi'i hychwanegu; mae dwy risg wedi'u cau a'u huno i greu un risg adsefydlu niwrolegol.
- Gwnaeth AF sylw am ddisgrifiadau a sgoriau risg cliriach a oedd wedi'u cefnogi gan fwy o ymgysylltu gweithredol. Byddai'r tîm Llywodraethu yn parhau i gefnogi cyfarwyddiaethau comisiynu yn y gwaith o adnabod, sgorio a disgrifio risg.
- Mae gostyngiad yn nifer y risgiau cyffredinol a adroddwyd yn y Gofrestr Risg Sefydliadol (ORR) bellach wedi digwydd (14 i lawr o 21). Er bod nifer y risgiau a adroddwyd yn y gofrestr wedi lleihau, mae'r risgiau'n parhau i gael eu cadw a'u rheoli o fewn y sefydliad, er yn dilyn adolygiad, mae'r sgoriau risg wedi gostwng yn unol â phrosesau Rheoli Risg CBCGC.

Trafododd yr aelodau:

- Y newidiadau cadarnhaol i'r gofrestr risg mewn perthynas â'r newid i risgiau sy'n canolbwyntio ar y comisiynydd.
- Yr angen i'r ORR ddod yn ddogfen sy'n dylanwadu ar benderfyniadau comisiynu yn y dyfodol. Cydnabuwyd bod hon yn broses ailadroddus, ond efallai y bydd angen gwneud gwaith gydag aelodau o'r CBC i gysoni risgiau sefydliadol a strategol.
- Roedd adolygiad o'r risg wedi digwydd mewn cyfarfod Uwch Dîm Arwain yn ddiweddar. Bydd risgiau strategol yn ymddangos, yn y dyfodol, ar y JAF. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan fframweithiau perfformiad ac uwchgyfeirio clinigol CBCGC. Disgwylir y bydd y JAF yn cael ei dderbyn mewn Sesiwn Datblygu'r CBC yn y dyfodol ac y bydd trafodaeth am Archwaeth Risg hefyd.

Penderfynodd yr Aelodau:

- **Nodi'r** adroddiad.
- **Ystyried a chraffu** ar y risgiau a neilltuwyd ar ran y CBCGC.
- **Cymeradwyo'r** ORR ar gyfer **sicrwydd** ymlaen i'r Cyd-bwyllgor ar gyfer rheoli risgiau'n effeithiol

QSO25/
119

4.1 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol
Derbyniwyd adroddiad ar faterion ansawdd, diogelwch a chanlyniadau yn ymwneud â chyfarwyddiaeth comisiynu Gwasanaethau Arbenigol. Cyflwynodd HA yr adroddiad ac eglurodd fod tîm comisiynu'r Gwasanaethau Arbenigol yn edrych ar ffyrdd o sicrhau bod naratif yr adroddiad yn parhau i amlygu meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt yn hytrach na naratif parhaus.

Nododd yr aelodau'r canlynol:

- **Uwchgyfeirio Gwasanaeth Dyfeisiau Mewnblaniad Clywedol De Cymru:** Mae'r gwasanaeth yn parhau i fod wedi'i uwchgyfeirio oherwydd pryderon am amseroedd aros a chynaliadwyedd. Er bod disgwyl i'r gwasanaeth gyrraedd y targed 52 wythnos erbyn mis Mawrth 2026, mae pryderon ynghylch staffio a'r model ariannol yn parhau. Ystyriwyd bod cadw'r gwasanaeth wedi'i uwchgyfeirio yn gam angenrheidiol i warantu cefnogaeth barhaus ar gyfer cyrraedd sefydlogrwydd hirdymor. Yn ogystal, ystyriwyd bod addasiadau i'r model ariannol yn hanfodol i leihau dibyniaeth ar fentrau amser aros. Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ynghylch llwybrau sgan CT a'r gwahaniaethau mewn arferion rhwng gwahanol fyrdau iechyd. Nodwyd bod byrddau iechyd ar hyn o bryd yn defnyddio dulliau gwahanol o ymdrin â'u cyfrifoldebau o ran sganiau CT; cynhaliwyd rhai sganiau cyn atgyfeirio, tra bod eraill yn digwydd ar ôl atgyfeirio at y gwasanaeth. Mae'r gwahaniaethau hyn wedi arwain at amseroedd aros anghyson i gleifion. Mae rheolwyr gwasanaeth wedi cael y dasg o adolygu'r prosesau



hyn i sefydlu dull unffurf sy'n cyd-fynd â threfniadau comisiynu. Bydd diweddariad ynghylch sut mae'n mynd yn cael ei roi yn y cyfarfod QSOC nesaf.

- **Pontio Gwasanaeth Llawfeddygaeth Gordewdra:** Mae'r Northern Care Alliance (Salford) wedi rhoi rhybudd ynghylch y gwasanaeth llawdriniaeth gordewdra. Mae ymdrechion wedi'u gwneud i nodi anghenion a nodweddion y grŵp cleifion. Mae trefniadau interim yn cynnwys trosglwyddo cleifion i wasanaeth De Cymru. Er y gallai hyn olygu bod cleifion yn gorfod teithio pellteroedd hirach, bydd cleifion yn cael eu cefnogi yn y broses hon trwy siopau un stop a chlinigau ar-lein. Bydd cymorth teithio a budd-daliadau yn cael eu hystyried yn unol â pholisiau teithio. Mae gwaith wedi dechrau i nodi darparwr hirdymor newydd. Codwyd pryder ynghylch yr oedi i ddechrau'r broses o chwilio am ddarparwr newydd ar gyfer y gwasanaeth Gordewdra. Roedd yr oedi yn rhannol oherwydd diffyg capasiti yn y tîm Gwasanaethau Arbenigol. Sicrhawyd yr aelodau fod y broses bellach ar y gweill ond cydnabuwyd eu pryder ynghylch yr oedi.
- **Tomograffeg Allyriadau Positronau - Tomograffeg Gyfrifiadurol (PET-CT):** Roedd tarfu yn narpariaeth y gwasanaeth PET CT yng Ngogledd Cymru wedi arwain at weithredu trefniadau amgen yng Ngogledd-orllewin Lloegr a De Cymru. Roedd y mater yn cael ei reoli, gyda thimau cyfathrebu yn cael eu hysbysu ac ymdrechion i leihau oedi, er nad oes dyddiad gorffen wedi'i sefydlu ar gyfer ail-gomisiynu contractau yng Ngogledd Cymru.
- Mae adroddiad **Achredu Cyd-bwyllgor Achredu ISCT Europe (JACIE)** ar gyfer Gwasanaethau BMT a CAR-T wedi'i gyhoeddi ac mae'n ofynnol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF) ymateb erbyn 8 Gorffennaf 2026. Mae'r CBCGC yn cefnogi BIPCF gyda'i ateb. Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, bydd JACIE yn adolygu'r ddogfennaeth ac yn cynghori ar statws adnewyddu'r achrediad.
- **Ysgogiad Dwfn yr Ymennydd (DBS):** Estynnwyd yr ymgynghoriad am fanyleb y Gwasanaeth Niwrolawfeddygol Swyddogaethol ar gyfer Anhwylderau Symud (gan gynnwys DBS) a daeth i ben ar 30 Ionawr 2026. Mewn ymateb i ddyddiad cau estynedig yr ymgynghoriad (fel y gofynnwyd gan Llais), bydd adolygiad y broses ddynodi yn cael ei ymestyn fel bod y dull yn cyd-fynd â'r bwriadau strategol a nodir yn yr IMTP, gan gynnwys yr amserlenni gofynnol ar gyfer gweithredu'r darparwr(wyr) dynodedig a'r model gofal y cytunwyd arno. I gefnogi hyn, mae'r llwybr dros dro a ddarperir gan Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbytai Coleg Prifysgol Llundain (UCLH) mewn partneriaeth â BIPCF wedi'i ymestyn tan ddiwedd mis Medi 2026.
- **Methiant Coluddol (IF) – Darparwyr Gofal Cartref:** Cynhaliwyd cyfarfod gyda thîm IF BIPCF ym mis Ionawr 2026 i drafod sut mae'r broses o drosglwyddo cleifion IF presennol i ddarparwyr Gofal Cartref newydd yn mynd rhagddo. Adroddodd BIPCF fod risgiau gweithredol ac o ran diogelwch wedi bod wrth ymgysylltu â chleifion newydd, gan wneud trosglwyddo cleifion presennol yn fwy heriol. Mae'r CBCGC wedi gofyn am adroddiad cryno am y pryderon a'r materion a godwyd, gan gynnwys amserlen, asesiad i weld a yw'r materion yn rhai a ailadroddir, a gwerthusiad o ymatebolrwydd y darparwr. Ar ôl ei rannu, bydd y CBCGC yn cynnal cyfarfodydd Sicrwydd Comisiynu ym mis Mawrth 2026 gyda'r Cwmnïau Gofal Cartref i drafod y materion a'r pryderon a amlygwyd.
- **Adroddiad Cenedlaethol Gwasanaethau Newyddenedigol a Mamolaeth:** Eglurodd CB bod y pwyllgor yn aros i gyhoeddi'r asesiad mamolaeth a newyddenedigol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, y disgwylir iddo effeithio ar benderfyniadau comisiynu. Mae cynlluniau ar waith i adolygu'r adroddiad a'i argymhellion yng nghyfarfod nesaf QSOC.
- Mae'r pwyllgor yn mynd i'r afael â phryderon y gallai'r galw yn y dyfodol am gapasiti **thrombectomi mecanyddol** fod yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd. Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad pellach am y mesurau sy'n angenrheidiol i gynyddu'r galw o fewn yr arbenigedd hwn. Nododd ID ei fod wedi cyfathrebu â Chyfarwyddwyr Meddygol Byrddau Iechyd o'r blaen i hyrwyddo mynediad ehangach i'r gwasanaeth; fodd bynnag, ymddengys bod anghysondeb rhwng data Rhaglen Archwilio Genedlaethol Strôc Sentinel (SNAP) sydd ar gael i CBCGC a'r adroddiadau a gyflwynwyd gan y Byrddau Iechyd. Pwysleisiwyd bod dealltwriaeth gywir o lif cleifion



	<p>yn hanfodol ar gyfer cynllunio a chomisiynu effeithiol i ddiwallu anghenion esblygol y boblogaeth. Argymhellodd ID hefyd bod gwasanaethau thrombolysis yn gyffredinol yn cael eu canoli yn well. Amlinellodd RW ymdrechion parhaus Gwasanaeth Ambiwllans Cymru (WAST) i wella'r broses o nodi cleifion strôc. Cydnabuwyd bod thrombectomi mecanyddol yn parhau i fod yn faes sydd angen ei ddatblygu ymhellach cyn cymeradwyo'r IMTP.</p> <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r diweddariadau comisiynu arbenigol a grynhoir yn yr adroddiad a chymryd Sicrwydd o'r rheolaeth sy'n digwydd ar weithgareddau a gomisiynwyd.• Nodi'r crynodeb o'r risgiau arbenigol a ddisgrifiwyd, a'r gwasanaethau hynny a uwchgyfeiriwyd ar gyfer monitro ychwanegol.
QSO25/ 120	<p>4.2 Adroddiad gan Rwydwaith Arennau Cymru</p> <p>Derbyniwyd adroddiad am faterion ansawdd, diogelwch a chanlyniadau yn ymwneud â Rhwydwaith Arennau Cymru. Tynnodd RP sylw at:</p> <ul style="list-style-type: none">• Y digwyddiad a adroddir yn genedlaethol (NRI), a nodwyd hefyd fel risg sy'n dod i'r amlwg. Amlinellodd RP nad oedd yr ymchwiliad annibynnol i'r NRI wedi dod i ben eto yn dilyn achos byr ond sydyn o gau rhaglen drawsblaniad Caerdydd, a arweiniodd at gollu cyfleoedd trawsblannu. Bydd ffocws yr ymchwiliad yn penderfynu pam a sut y caeodd yr uned. Sicrhawyd Rhwydwaith Arennau Cymru bod mesurau wedi'u cymryd ar unwaith i atal unrhyw achosion pellach. Bydd cydweithredu rhanbarthol gyda Bryste a'r De-orllewin yn bwysig ac roedd Memorandwm Cytundeb drafft yn y broses o gael ei gwblhau i gefnogi gwydnwch gwasanaethau. Hefyd, mae recriwtio ychwanegol wedi digwydd i gryfhau cynaliadwyedd y gwasanaeth, er nad yw'r ymgeisydd llwyddiannus wedi dechrau eto. Hyd nes bod staff yn y swydd a hyd nes y bydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau, byddai'n rhy gynnar i ddod i gasgliadau. Ar y cyfan, roedd y risg yn cael ei liniaru gyda'r camau hyn ar y gweill. Nododd yr aelodau fod yr adroddiad yn ymddangos yn groes i'r diweddariad ac roedd RP a HA ill dau yn cytuno bod hyn yn ymwneud ag amseru ac ers i'r adroddiad gael ei ysgrifennu mae rhagor o wybodaeth wedi'i derbyn a phan fo'n briodol byddai'r sgôr risg yn cael ei ostwng.• Mae'r NRI a oedd yn ymwneud ag achos o Organeb Cynhyrchu Carbapenems (CPO) bellach wedi'i gau. Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r achos hwn yn atgyfnerthu'r angen am brotocolau sgrinio cadarn, hylendid amgylcheddol cyson, a chynlluniau ward sy'n darparu ar gyfer gofynion gofalu am gleifion a rheoli heintiau. Mae'r argymhellion yn cynnwys; cryfhau protocolau sgrinio a thechneg sgrinio CRO; gwell safonau hylendid amgylcheddol; mynd i'r afael â chynllun ward a chapasiti ynysu; a hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch a dysgu. Bydd Rhwydwaith Arennau Cymru'n parhau i gadw llygad trwy'r darparwr rhanbarthol i sicrhau yr eir i'r afael â'r argymhellion hyn. <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi yr adroddiad a chymryd Sicrwydd o'r gweithgarwch sy'n mynd rhagddo i reoli gwasanaethau a gomisiynwyd.
QSO25/ 121	<p>4.3 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Ambiwllans ac 111</p> <p>Cafwyd adroddiad am faterion ansawdd, diogelwch a chanlyniadau sy'n ymwneud â gwasanaethau Ambiwllans ac 111. Tynnodd RW sylw at:</p> <ul style="list-style-type: none">• Fframwaith Perfformiad y Gwasanaeth Ambiwllans: Roedd y gwasanaeth ambiwlans yng nghanau cynnar creu fframwaith perfformiad diwygiedig, ond adroddodd RW rai newidiadau cadarnhaol mewn cyfraddau cludo a chyfleoedd i gynnal ymyrraeth o bell. Cynhelir gwerthusiad allanol gan Brifysgol Edge Hill a Phrifysgol Abertawe, a bydd yn cynnwys y posibilrwydd o gynnal dadansoddiad economaidd iechyd o amseroedd ymateb ar gyfer cleifion strôc a chleifion â chnawdnychiant myocardiaidd ST-dyrchafedig (STEMI).



- **Heriau Cludo Cleifion nad ydynt yn Achosion Brys (NEPTs):** Mae problemau capasiti yn parhau ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol a rhyddhau cleifion allanol, gyda chyllid afreolaidd yn cael ei ddefnyddio i wella capasiti rhyddhau a throsglwyddo tan ddiwedd mis Mawrth 2026. Fodd bynnag, roedd hon yn broblem reolaidd sy'n digwydd y rhan fwyaf o'r amser yn y gaeaf ac roedd angen datrysiad mwy hirdymor. Roedd dadansoddiad ar y gweill i archwilio newidiadau i safonau cymhwysedd a pherfformiad er mwyn optimeiddio'r ddarpariaeth trafndiaeth yn yr hirdymor.
- Mae gwaith wedi'i wneud i gryfhau'r broses o fynegi risgiau o fewn y gyfarwyddiaeth ambiwlans i sicrhau ei fod yn adlewyrchu rôl CBCGC fel comisiynydd, a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu mewn diweddariadau risg yn y dyfodol.
- Mae'r Tasglu Trosglwyddo Ambiwllans bellach wedi dod i'w derfyn. Bydd gwaith yn dal i gael ei wneud gyda Pherfformiad a Gwelliant y GIG (P&I).
- Ym mis Ionawr 2026, cadarnhaodd y CBC nad oedd gan y CBCGC unrhyw gyfrifoldeb comisiynu parhaus dros y gwasanaeth 111 press 2 ond eu bod yn parhau i weithio trwy gynllun pontio. Roedd cydweithwyr o GIG P&I yn datblygu gwaith ar y model mynediad agored i gefnogi hyn.
- Roedd ymdrechion i gael eglurder am y cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Trafnidiaeth Newyddenedigol yn parhau, gyda RW yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag arweinwyr clinigol o'r tri safle. Efallai y bydd Adroddiad Mamolaeth Llywodraeth Cymru sydd ar y gweill yn cynnwys argymhellion perthnasol. Er mwyn paratoi, mae RW wedi trefnu cyfarfod gydag arweinydd GIG Lloegr i ddysgu am eu hagwedd at faterion tebyg.
- Adroddodd RW am yr heriau parhaus gan WAST wrth ymateb i'w hôl-groniad o gwynion a'r gobaith yw y bydd newidiadau o fewn y strwythur ansawdd sefydliadol yn rhoi rhywfaint o gapasiti ychwanegol.
- Rhoddodd CB ddiweddariad yn dilyn cyfarfod gyda thîm Gweithredol WAST ynghylch gwella'r broses adrodd ynghylch materion ansawdd i'r CBCGC. Mae'r Tîm Ansawdd wedi sefydlu cyfarfodydd misol gyda thîm gweithredol WAST a bydd adolygiadau ansawdd yn ymddangos fel eitem ar yr agenda ym mhob cyfarfod. Esboniodd CB fod WAST yn bwriadu cyflwyno Adroddiad Niwed i'w Bwrdd Ymddiriedolaeth a fyddai'n cefnogi'r gwaith hwn. Bydd hyn yn cael ei rannu gyda'r CBCGC a bydd yn cael ei ddefnyddio i wella'r Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Ambiwllans a 111, yn y dyfodol.

Pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd blaenoriaethu ac ymgorffori canlyniadau clinigol ac ansawdd mewn adroddiadau yn y dyfodol, yn hytrach na dibynnu ar ddata perfformiad yn unig. Nodwyd y gallai Adroddiad Niwed WAST roi mewnwelediadau gwerthfawr unwaith y bydd ar gael. Yn ogystal, codwyd pryderon ynghylch y ganran isel sy'n gysylltiedig â thrin cwynion, gydag aelodau yn mynegi optimistaeth y bydd newidiadau strwythurol yn cyfrannu at welliannau yn y maes hwn.

Penderfynodd yr Aelodau:

- **Nodi** cynnwys yr Adroddiad Ansawdd a Diogelwch Gwasanaethau Ambiwllans ac 111.
- **Derbyn** yr adroddiad fel sicrwydd.

QSO25/
122

4.3 Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau sy'n Agored i Niwed (MHLDVG)

Derbyniwyd adroddiad ar faterion ansawdd, diogelwch a chanlyniadau sy'n ymwneud â chyfarwyddiaeth MHLDVG. Tynnodd SO sylw at y canlynol:

- Mae Gofal Iechyd St Andrew's yn parhau i fod wedi'i atal dros dro o'r Cytundeb Fframwaith Cenedlaethol. Er nad oes unrhyw bryderon newydd yn ymwneud â chleifion o Gymru wedi'u nodi yn ystod adolygiadau diweddar, cafwyd adroddiadau o broblemau sylweddol ar rai o'r wardiau lle nad oes cleifion o Gymru ar hyn o bryd. Bydd y CBCGC yn parhau i reoli'r gwasanaeth hwn a'r materion a nodwyd yn unol â phrosesau'r Fframwaith ac ar y cyd â sefydliadau comisiynu eraill ledled Lloegr. Mae cyfarfodydd wythnosol ar gyfer prosesu monitro uwch yn parhau. Mae sylw sylweddol



wedi bod yn y cyfryngau yn ystod yr wythnosau diwethaf, sy'n cael ei reoli'n agos gan y tîm cyfathrebu mewn cysylltiad â'r ganolfan gyfathrebu genedlaethol.

- Yn dilyn archwiliad diweddar yn Llys Llanarth (Priordy) ym mis Tachwedd 2025, nodwyd materion sylweddol mewn perthynas â rheoli cleifion yn ddiogel mewn unedau Ynysu/Gwahanu Hirdymor (LTS), absenoldeb gyda chydymaith a chofnodi nodiadau clinigol dyddiol ar y pryd. Ar ôl cyflwyno tystiolaeth y darparwr mewn perthynas â'r materion a nodwyd, ni chafodd archwilwyr y Tîm Fframwaith Cenedlaethol ddigon o sicrwydd ynghylch gwelliannau i'r prosesau ac felly dechreuwyd mynd ati i ostwng y sgôr Q dros dro. Fodd bynnag, heriwyd hyn gan y darparwr a chafodd ei ohirio hyd nes y byddai'n cael ei adolygu ymhellach. Mae ymweliad dilynol pellach wedi'i drefnu i asesu'r gwasanaeth a phenderfynu ar gamau priodol parhaus.
- Mae Clinig Caswell yn parhau i fod ar lefel uwchgyfeirio 3 CBCGC. Mae'r Clinig wedi ailagor i dderbyniadau ers mis Ionawr 2026 ac mae'r gwasanaeth bellach wedi cael y dasg o gludo cleifion yn ôl i'r saith gwely gwag ar y safle. Roedd disgwyl i ddau glaf gael eu dychwelyd yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 23 Chwefror 2026. Roedd cynnydd cadarnhaol yn digwydd, mewn perthynas â'r cynllun gweithredu. Mae tîm comisiynu MHLDVG yn parhau i gwrdd ag uwch reolwyr a thîm MDT Clinig Caswell bob pythefnos i adolygu'r cynnydd yn erbyn eu cynllun gwella ansawdd/gweithredu. O fewn CBCGC mae cyfarfodydd pellach wedi'u trefnu rhwng Cyfarwyddwr Comisiynu MHLDVG a'r Cyfarwyddwr Nyrsio ac Ansawdd i drafod yr hyn oedd ei angen ar gyfer dod â'r lefel cyfeirio i lawr.

Holodd yr aelodau beth oedd y rhesymeg am y ganran isel o ddefnydd gwelyau (33%) yng Ngwasanaeth CAMHS Gogledd Cymru. Sicrhawyd yr aelodau nad oedd hyn yn anghyffredin i'r uned hon a nodwyd cyfradd defnydd tebyg ar gyfer gwasanaeth cyfatebol De Cymru yn Nhŷ Llywelyn. Y rheswm oedd oherwydd bod yr unedau hyn yn addas ar gyfer derbyniadau cyffredinol yn y glasoed yn unig. Mae bwriad yn yr IMTP i adolygu'r modelau gofal ar gyfer y ddwy uned hyn ac roedd yr Unedau yn gwbl ymwybodol o'r adolygiad ac yn ei groesawu.

Codwyd y cwestiwn a ellid cynnig gwelyau gwag i gleifion o Loegr. Esboniodd AC y dylid blaenoriaethu cleifion o Gymru ar gyfer gwelyau Cymreig cyn eu cynnig i gleifion o Loegr. Dylai hyn ddigwydd dim ond lle nad oedd rhestrau aros. Dim ond problem i'r unedau glasoed hyn yw hon, oherwydd gyda lleoliadau diogelwch canolig mae gan y CBCGC nifer o gleifion o Gymru ar hyn o bryd mewn lleoliadau y tu allan i'r ardal.

Trafodwyd y posibilrwydd o ymweliad dilynol i Aelodau Lleyg â Chlinig Caswell i ystyried gwelliannau i'r gwasanaeth yn uniongyrchol a bydd yn cael ei drefnu ar adeg addas yn y dyfodol.

Cwestiynwyd yr amserlenni hir mewn perthynas â'r rhaglen o atgyweiriadau i Uned Diogelwch Isel Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, a gafodd ei difrodi gan dân, oherwydd yr effaith ar gost a lleoliadau i gleifion diogelwch canolig, yn sgil y ffaith fod un ward yng Nghaswell yn cael ei defnyddio ar gyfer cleifion diogelwch isel yn y cyfamser.

Rhoddodd SO wybod fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi hysbysu JCC bod gwaith i adfer y safle wedi'i drefnu i gael ei gwblhau yng Ngwanwyn 2027. Bydd hyn yn parhau i effeithio ar leoliadau diogelwch canolig a chostau am y cyfnod hwnnw. Ochr yn ochr â hyn, ac fel rhan o gynllunio IMTP, mae'r CBCGC wedi nodi bod angen ymgymryd â gwaith ynghylch galw a chapasiti ar yr holl welyau sydd ar gael ar draws safleoedd diogelwch canolig ac isel y GIG a fyddai'n cael ei wneud ar y cyd â Lloegr oherwydd materion defnydd gwelyau trawsffiniol, a byddai'n helpu i lywio penderfyniadau comisiynu a lliniaru'r pwysau a achosir gan gau'r safle hwn.

Penderfynodd yr Aelodau:

- **Nodi'r** wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiad; a
- **Derbyn** yr adroddiad fel **sicrwydd** bod mecanweithiau cadarn ar gyfer sicrhau diogelwch ac ansawdd o fewn y rhaglen.



QSO25/ 123	<p>4.4 Llwybrau Uwchgyfeirio</p> <p>Cafwyd a nodwyd yr Adroddiad am y Llwybrau Uwchgyfeirio, gyda'r Pwyllgor yn cydnabod bod manylion y gwasanaethau sydd wedi'u huwchgyfeirio wedi cael eu trafod yn ystod diweddariadau blaenorol. Nododd yr aelodau y newidiadau a wnaed i'r adroddiad gan ddweud eu bod yn ddefnyddiol.</p> <p>Trafododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">Bod llwybrau wedi cael eu hadolygu a'u gwneud yn fwy cryno. Dywedodd yr Aelodau ymhellach fod yr adroddiad bellach yn haws i'w ddarllen. <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">Nodi'r adroddiad a derbyn Sicrwydd yng nghyswllt y diweddariadau a fanylir yn yr adroddiadau a rannwyd.
QSO25/ 124	<p>4.5 Adroddiad am Ddigwyddiadau a Phryderon</p> <p>Cafwyd adroddiad yn amlinellu crynodeb o'r pryderon a'r digwyddiadau a adroddwyd i CBCGC gan y darparwr a'r gwasanaethau a gomisiynwyd. Nododd yr aelodau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">Y cafwyd pedwar Digwyddiad a Adroddwyd yn Genedlaethol ac un Hysbysiad Rhybudd Cynnar yn y cyfnod adrodd.Mae pedwar digwyddiad wedi'u cau a disgwylir i fwy gael eu cau o fewn y cyfnod adrodd nesaf.Derbyniwyd pedair cwyn; mae dau ohonynt yn parhau i fod ar agor.Nid oedd unrhyw atgyfeiriadau newydd i'r Ombwdsmon wedi dod i law. <p>Bydd gwybodaeth ychwanegol am ddigwyddiad diogelu diweddar yn cael ei rhannu yn y sesiwn fewnol o fewn y Pwyllgor oherwydd ei natur sensitif.</p> <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">Nodi'r adroddiad.Derbyn yr adroddiad fel sicrwydd.
QSO25/ 125	<p>4.6 Adroddiad y Rheoleiddiwr (Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)/y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)</p> <p>Derbyniwyd adroddiad yn rhoi briff o adroddiadau AGIC a CQC. Nododd yr aelodau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">Y derbyniwyd tri arolygiad CQC yn ystod y cyfnod adrodd.Na dderbyniwyd unrhyw arolygiadau AGIC newydd.Allbynnau o uwchgynhadledd AGIC a gynhaliwyd ym mis Tachwedd. Mae llythyr o'r crynodeb wedi'i anfon at y Byrddau Iechyd yn uniongyrchol gan AGIC. Mae grŵp monitro yn cyfarfod yn fisol er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer yr uwchgynhadledd nesaf sydd i fod i gael ei chynnal yng Ngwanwyn 2026.Nid oedd unrhyw risgiau rheoleiddiol na materion sy'n gofyn am uwchgyfeirio ar hyn o bryd. <p>Gwnaeth yr Aelodau sylwadau am y gwelliannau i strwythur yr adroddiad yn ogystal ag agwedd â mwy o ffocws tuag at gasgliadau a goblygiadau i'r sefydliad. Diolchodd CB i SL a VDJ am eu gwaith yn y maes hwn.</p> <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">Nodi'r adroddiad; aDerbyn yr adroddiad fel sicrwydd.
QSO25/ 126	<p>4.7 Adroddiad gan Banel Ceisiadau Cyllido Claf Unigol (CCCU) Cymru Gyfan</p> <p>Cafwyd Adroddiad y Panel CCCU. Nododd yr aelodau fod y dadansoddiad costau wedi'i ychwanegu at yr adroddiad. Tynnwyd sylw at y diffyg argaeledd gan gynrychiolwyr y Byrddau Iechyd a'r angen i ymgymryd â chamau gweithredu Cadeiryddion fel pryder. Cytunwyd bod</p>



	<p>angen ysgrifennu at Brif Swyddogion Gweithredol y Byrddau Iechyd i sicrhau bod Prif Swyddogion Gweithredol yn ymwybodol o ddiffyg presenoldeb fel problem.</p> <p>Cam Gweithredu: Sicrhau bod llythyr y Prif Gomisiynydd yn cael ei anfon at Brif Swyddogion Gweithredol y Byrddau Iechyd ynghylch presenoldeb Byrddau Iechyd yng nghyfarfodydd IPFR CBCGC.</p> <p>Dywedodd ID fod dwy swydd wag ar gyfer aelodau lle y panel wedi cael eu hysbysebu a bod y CBCGC wrthi'n trefnu cyfweiliadau. Cwblhaodd y tîm Archwilio Mewnol adolygiad o'r systemau a'r prosesau sydd ar waith ar gyfer rheoli ac ystyried ceisiadau IPFR. Daeth hyn i ben gyda sgôr Sicrwydd Sylweddol.</p> <p>Nododd yr Aelodau, er bod yr adroddiad Archwilio Mewnol yn ffafriol, nad oedd ei gwmpas yn ymestyn i bresenoldeb mewn cyfarfodydd nac yn ystyried ymgysylltiad y Bwrdd Iechyd mewn cyfarfodydd. Awgrymodd y gallai hyn fod wedi bod yn gyfle a gollwyd i fynd i'r afael â rhai pryderon parhaus.</p> <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r adroddiad.• Derbyn yr adroddiad fel sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y Panel CCCU.
QSO25/127	<p>4.9 Adroddiad y Grŵp Polisi</p> <p>Derbyniwyd Adroddiad y Grŵp Polisi. Nododd yr aelodau y cynigir sefydlu Grŵp Dilysu Polisi yn dilyn penodi i'r swyddi Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt oedd heb eu llenwi. Bydd hyn yn sicrhau fforwm â mwy o ffocws. Roedd hyn yn debygol o gael ei sefydlu yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol newydd 2026/2027.</p> <p>Soniodd yr Aelodau am yr angen i ddeall pam fod polisïau wedi'u gohirio yn yr adroddiad. Mae hyn eisoes wedi cael ei godi y tu allan i'r cyfarfod ac mae cais wedi'i wneud i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol.</p> <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r gwaith polisi a'r datblygiad a wnaed yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn.
QSO25/128	<p>5.1 Adolygiad Cylch Gorchwyl Blynyddol QSOC</p> <p>Derbyniwyd y ddogfen ddrafft gyda newidiadau wedi'u tracio. Nododd yr aelodau fod y cylch gorchwyl wedi'i ddiweddarau er mwyn eglurder ac i'w gysoni â'r busnes cyfredol. Roedd y newidiadau yn ysgafn ac yn bennaf yn ymarfer tacluso. Cytunwyd ar y newidiadau a awgrymwyd.</p> <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Ystyried y newidiadau arfaethedig i'r Cylch Gorchwyl presennol; a• Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl diwygiedig arfaethedig i'w argymhell i'r Pwyllgor Comisiynu ar y Cyd i'w ardystio a'i gymeradwyo ymhellach gan y Byrddau Iechyd.
QSO25/129	<p>5.2 Adolygiad Blynyddol QSOC o Effeithiolrwydd Is-bwyllgorau</p> <p>Derbyniwyd y ddogfen ddrafft. Nododd yr aelodau y byddai'r cwestiynau yn cael eu lledaenu ar-lein a byddai adborth yn cael ei roi mewn cyfarfod yn y dyfodol.</p> <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Gymeradwyo'r cwestiynau arfaethedig a'r dull gweithredu o gynnal adolygiad effeithiolrwydd QSOC.
QSO25/130	<p>5.3 Adroddiad Blynyddol QSOC</p> <p>Derbyniwyd y ddogfen ddrafft ac fe'i cymeradwywyd.</p> <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r adroddiad; a



	<ul style="list-style-type: none">• Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol QSOC 2025/2026 ar gyfer rhoi sicrwydd ymhellach i'r Cyd-bwyllgor.
QSO25/ 131	<p>5.4 Blaengynllun Busnes 2026-2027 Nododd yr Aelodau y blaengynllun busnes. Trafododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Yr angen i'r cynllun gael ei ddiweddarau drwy fersiynau newydd trwy gydol y flwyddyn yn seiliedig ar eitemau sy'n codi ar yr agenda a'r camau gweithredu wrth iddyn nhw ddeillio o gyfarfodydd.• Yr angen i ychwanegu proses Adolygiad Mamolaeth a Newyddenedigol Llywodraeth Cymru a'r broses QIA i'r cynllun yn unol â'r trafodaethau yn y cyfarfod heddiw. <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Gymeradwyo'r Blaengynllun Busnes ar gyfer 2026-2027.
QSO25/ 132	<p>6.1 Unrhyw Fusnes Arall Ni chodwyd unrhyw fusnes pellach.</p>
QSO25/ 133	<p>6.2 Eitemau i'w gohirio/uwchgyfeirio at y Cyd-bwyllgor Comisiynu / Is-bwyllgorau eraill ac adolygiad o unrhyw gamau gweithredu i gyfarfodydd yn y dyfodol</p> <ul style="list-style-type: none">• Diolch i'r clinigydd am ddod i'r cyfarfod a rhannu manylion stori'r claf a diolch i'r claf am roi eu caniatâd i'r clinigydd rannu eu stori.• Adroddiad Mamolaeth Newyddenedigol i'w gynnwys fel eitem agenda ar wahân ar gyfer cyfarfod QSOC yn y dyfodol.• Materion thrombectomi i'w hadolygu a'u cofnodi fel rhan o'r IMTP.• Gwasanaethau gordewdra a gwasanaethau clywedol arbenigol i'w hamlygu yn adroddiad y Cadeirydd.• Llythyr pryder IPFR i'w anfon at Brif Weithredwyr y Byrddau Iechyd ac i'w godi yn adroddiad y Cadeirydd fel mater parhaus.• Nodyn i atgoffa'r rhai sy'n ysgrifennu adroddiadau i sicrhau bod ffocws yr adroddiadau yn gyson â'r Cylch Gorchwyl a sicrhau bod ansawdd, diogelwch a chanlyniadau cleifion wrth wraidd yr adroddiadau hyn.
QSO25/ 134	<p>6.3 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf Trefnwyd bod y cyfarfod nesaf sydd wedi'i gadarnhau yn cael ei gynnal ar 27 Ebrill 2026.</p>